COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD A GYNHALIWYD AR DDYDD LLUN 3 MEDI 2018 YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y PENTREF, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD AM 7.30 Y.H.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Lyn Evans (Cadeirydd), Timothy Baker, Kenneth Tams, Rhian Jones (o 8.15 y.h.), Robert Barton (o 8.25 y.h.) a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Jackie Bird, Nick Smith a David Ritchie.

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB.
Dim datganiad wedi ei dderbyn.

3. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR.
Derbyniodd yr aelodau gofnodion cyfarfod 2 Gorffennaf 2018 fel rhai cywir, a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.
A. Cyflwynodd y Cyng. Lyn Evans ddiweddariad ynghylch materion Neuadd Bentref Llanbedr:-
1. Mae'r manylion cyswllt ar yr hysbysfwrdd wedi'u diweddaru.
2. Gwnaed trefniadau i gael hysbysfwrdd newydd.
3. Mae'r gwair wedi ei dorri.
B. Mae'r Cyng. Lyn Evans a Mr Gwyn Williams wedi torri'r gwrych wrth y briffordd ym mhen Lon Cae Glas.
C. Mae Mr Huw Williams, y Cynghorydd Sir wedi cysylltu â Heddlu Gogledd Cymru parthed y mater goryrru ar yr A494 drwy Lanbedr.
D. Dywedodd y Cyng. Lyn Evans fod Huw Williams, y Cynghorydd Sir yn edrych i mewn i'r Hyfforddiant Defibrillator, gan awgrymu y dylai pob grŵp sy'n cyfarfod yn y neuadd anfon cynrychiolydd i'r hyfforddiant.
E. Cyflwynodd y Cyng. Lyn Evans ddiweddariad i'r Aelodau ar gylchgrawn "Link":-
1. Mae angen cyfraniadau ar gyfer y rhifyn chwarterol.
2. Mae Chris Mayer yn awyddus i ailwampio'r cylchgrawn ac ad-drefnu ei ddosbarthiad.
Bydd diweddariad yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

5. Y SEDD WAG AR Y CYNGOR.
Derbyniodd y Clerc un cais am y sedd wag ar y Cyngor gan Mr Gruff Jones, 6 Maes Celyn, Llanbedr, a dosbarthodd Curriculum Vitae Mr Jones i'r Aelodau. Ar ôl cysidro'r cais, penderfynodd yr Aelodau estyn gwahoddiad i Mr Jones ddod i arsylwi yn ystod cyfarfod mis Hydref y Cyngor.

6. DIWEDDARIAD YNGLŶN Â'R GANOLFAN GYMUNEDOL.
Rhoddwyd diweddariad gan y Cyng. Tim Baker:-
A: Aeth y Cynnig Cyfranddaliadau ddim rhagddo ar benwythnos Gŵyl y Banc oherwydd na dderbyniwyd y sêl bendith cyfreithiol llawn gan Gymdeithas Gydweithredol Cymru. Disgwylid derbyn y sêl bendith ar ddiwedd yr wythnos yn dechrau ar 3 Medi.
B. Bydd y cynnig cyfranddaliadau'n cael ei gyflwyno i'r gymuned ar 24 Medi ac yn cau ar 17 Tachwedd.
C. Gofynnodd Mr Baker i'r benthyciad o £1,500.00 a wnaethpwyd i Grŵp Rheoli "Griffin Ni" gael ei drosglwyddo'n grant. Bydd hyn ar yr Agenda yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

7. GWEFAN Y CYNGOR.
Eglurodd y Cyng. Lyn Evans nad yw'r Cyng. Jackie Bird yn gallu helpu gyda Gwefan y Cyngor oherwydd pwysau gwaith. Penderfynodd yr Aelodau drafod Gwefan y Cyngor yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor pan fydd mwy o Aelodau'n bresennol.

8. DIWEDDARIAD AR GYNNAL A CHADW EGLWYS HYNAFOL SAN PEDR.
Rhoddodd y Cyng. Lyn Evans adroddiad wedi'i ddiweddaru:-
A: Mae Lyn Evans, Guy Alford, Gwyn Williams, Dave Ritchie ac Andrew Harvey wedi gorffen torri'r gwair ar y safle. Bydd Rhian Jones yn rhoi hysbysiad ar dudalen Facebook Llanbedr er mwyn gweld a fydd rhywun am wirfoddoli i dorri'r gwair yn y dyfodol.
B. Mae Guy Alford a Lyn Evans am gael dyfynbrisiau ar gyfer torri'r gwair yn rheolaidd y flwyddyn nesaf er mwyn meistroli'r tyfiant a gwneud i'r Eglwys a'r fynwent edrych yn fwy deniadol i ymwelwyr.
C. Er i'r Clerc anfon dau e-bost at y Parch Philip Chew yn gofyn am help i dorri'r gwair yn rheolaidd, ni chafwyd ateb.

9. ADRODDIAD GAN BWYLLGOR EGLWYS HYNAFOL SAN PEDR.
Eglurodd y Cyng. Rhian Jones na fydd yn gallu gwneud unrhyw gynnydd ar y cais am grant tan y Flwyddyn Newydd oherwydd ymrwymiadau gwaith ychwanegol.

10. FFYRDD RHWYDD I GODI ARIAN.
Bydd y Cyng. Dave Ritchie yn adrodd ar hyn yng nghyfarfod mis Hydref.

11. ADFER 'ASTROTURF' YSGOL LLANBEDR.
Oherwydd ei hymroddiad i ail-agor Canolfan Gymunedol y Griffin, mae Sian Jones wedi gohirio'r cais am grant.

12. DIWEDDARIAD YNGLŶN Â CHOED Y WAEN A'R YSGOL.
Cyflwynodd y Cyng. Lyn Evans ddiweddariad i'r Aelodau:-
A: Mae cytundeb cyfreithiol Coed y Waen wedi ei lofnodi a'i gytuno gan Mr David Sharples ac wedi ei ddychwelyd i'r Ysgol.
B. Enillodd gardd yr Ysgol wobr gyntaf yn Sioe Flodau Rhuthun.
C. Mae Ivor Richards wedi rhoi tŷ gwydr mawr i'r Ysgol, ac wedi cael grant o £1,200.00 gan y Lasdan Livery Company ar gyfer prynu deunyddiau ac i osod y tŷ gwydr . Os na fydd digon o arian, maent am ofyn am nawdd gan y Cyngor Cymuned.

13. CYFLWYNIAD BANER WERDD.
Fe roddodd y Cynghorwyr Bob Barton a Ken Tams ddiweddariad i'r Aelodau ar y cyflwyniad Baner Werdd fu ar 9 Awst 2018 ym Mae Colwyn. Cyflwynodd y Cyng. Barton luniau o'r digwyddiad. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorwyr Barton a Tams am eu gwaith caled ar Brosiect Gardd Gymunedol Maes Derwen wnaeth ennill "Gwobr y Faner Werdd".

14. MATERION ARIANNOL.
A. Cyfrifon banc:-
1. Cyfrif Cyfredol gyda'r Nat West £14,382.43.
2. Cyfrif Cadw gyda'r Nat West £9,330.51.
B. Derbyniadau:-
1. Ail dderbyneb presept - 2018/19 £8,500.00.
2. Cyngor Tref Bae Colwyn (Ad-daliad cwrs hyfforddi Un Llais Cymru) - £80.00.

C. Awdurdodi taliad bil:-
1. Cyflog y Clerc am y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Medi 2018 - £ 440.00
2. Talu wrth Ennill Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC – PAYE) am y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Medi 2018 - £110.00.
3. Krystal Hosting – Tâl am y Parth Gwefan - £35.99.
4. Brenda Jones - costau cyfieithu - £40.00.
5. Cwrs hyfforddi Un Llais Cymru - £40.00.

15. CEISIADAU CYNLLUNIO.
Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Cyng. Nick Smith (Cynrychiolydd Cynllunio'r Cyngor) yn ystod gwyliau Haf y Cyngor Cymuned, gwnaed sylw ar y ceisiadau cynllunio canlynol a dderbyniwyd.
A. Cais 16/2018/0645 – Adeiladu estyniad, darparu diangfeydd tân ac adeiladu mewnol er mwyn darparu Canolfan ar gyfer y gymuned yn Nhafarn y Griffin, Llanbedr Dyffryn Clwyd – dim gwrthwynebiad.
B. Cais 16/2018/0646 – Adeiladu estyniad, darparu diangfeydd tân ac adeiladu mewnol er mwyn darparu Canolfan ar gyfer y gymuned (Cais Adeilad Rhestredig) yn Nhafarn y Griffin, Llanbedr Dyffryn Clwyd– dim gwrthwynebiad.
C. Cais 16/2018/0659 – Cyflwynwyd manylion ymddangosiad, cynllun tirlunio a graddfa ar gyfer annedd yn unol ag amod rhif un côd caniatâd amlinellol 16/2017/1074 (cais materion a gadwyd yn ôl) ar dir (sy'n rhan) o'r ardd yn Cae Glas, Lon Cae Glas, Llanbedr Dyffryn Clwyd – dim gwrthwynebiad.
D. Cais 16/2018/0697 – Adeiladu estyniad ac addasu annedd yn Nant-y-Brithyll, Llanbedr Dyffryn Clwyd - dim gwrthwynebiad.
E. Cais 16/2018/0730 – Adeiladu estyniad i annedd yn Machlud Haul, 1 Tunnel Bungalows, Llanbedr Dyffryn Clwyd – dim gwrthwynebiad.
F. Cais 16/2018/0702 – Adeiladu estyniad ac addasu annedd yn Panorama Cottage, Llanbedr Dyffryn Clwyd – dim gwrthwynebiad.
G. Cais 15/2018/0726 – Adeiladu estyniad ac addasu annedd yn Bwlch-y-Parc, Llanbedr Dyffryn Clwyd – dim gwrthwynebiad.
H. Cais 16/2018/0713 – Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol o dir i osod carafanau ar dir yn Stoney Lane, Llanbedr Dyffryn Clwyd – sylwadau:-
** Ar y cynllun sy'n dangos y carafanau newydd, mae siâp y safle'n wahanol i'r siâp ar gynllun y lleoliad. Wrth edrych ar Google Earth, nid oes digon o le i'r carafanau newydd ar y safle presennol. Byddai angen caniatâd cynllunio ar wahân er mwyn ehangu'r safle. Nid oes modd ei wneud ar sail y cais hwn.*
** Nid oes gan y Cyngor Cymuned fynediad i'r caniatâd cynllunio gwreiddiol. Hyderwn y bydd Cyngor Sir Ddinbych yn gwneud ymchwil teilwng i'r rhain er mwyn sefydlu ffiniau gwreiddiol y safle.*
** Ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos fod y safle wedi'i defnyddio'n gyson ar gyfer gosod carafanau am gyfnod di-dor dros 10 mlynedd.*
** Ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw/na fyddai unrhyw garafanau presennol neu arfaethedig yn amharu ar ddatblygiad gweithredol.*
** Ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth parthed defnydd blaenorol / hanesyddol y carafanau. Ar gyfer gwyliau?*
** Os, ar ôl iddynt dderbyn y wybodaeth uchod, y bydd Cyngor Sir Ddinbych yn penderfynu y dylid rhoi tystysgrif, argymhellir newid y disgrifiad yn: 'Defnydd tir ar gyfer gosod hyd at 10 o garafanau fel llety gwyliau tymor byr'.*
** Mae cryn ddryswch ynghylch y ffaith os yw'r cais ar gyfer defnydd presennol neu ddefnydd arfaethedig.*
Cynigodd y Cynghorwyr Rhian Jones a Bob Barton y dylai Lyn Evans a Bob Barton ymuno â'r Cyng. Nick Smith, er mwyn cael asesiad mwy cytbwys o'r ceisiadau cynllunio.

16. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd e-bost gan Delyth Jones, ar ran Pwyllgor Apêl Llanbedr Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020, yn gofyn am gymorth grant gan y Cyngor Cymuned i'r Pwyllgor Apêl lleol. Penderfynodd yr Aelodau y dylai'r Clerc ysgrifennu at Delyth Jones cyn cyfarfod nesaf y Cyngor i ofyn faint o grant fydd angen arnynt.

B. Cynigodd Joe Walley, Swyddog Ecoleg Cyngor Sir Ddinbych, ddod i gyfarfod nesaf y Cyngor er mwyn trafod sut mae gofalu am ochr y ffyrdd, oherwydd newidiadau diweddar i'r ddeddfwriaeth. Penderfynodd yr Aelodau wahodd Mr Walley i'r cyfarfod Cyngor nesaf.

C. Mae Gary Williams, Swyddog Monitro Cyngor Sir Ddinbych, wedi gofyn am gais i ymestyn y gollyngiad i Aelodau'r Cyngor sydd yn ymwneud â'r Ganolfan Gymunedol (y Cynghorwyr Lyn Evans, Tim Baker a Dave Ritchie), - y cais i'w ystyried yn y Pwyllgor Safonau ar 21 Medi 2018. Cytunodd y Cynghorwyr Bob Barton a Lyn Evans i baratoi'r cais ar ran y Cyngor Cymuned erbyn 7 Medi a'i anfon i Mr Gary Williams.

17. ADRODDIAD CYNGOR SIR DDINBYCH.

Roedd y Cyngor mwy neu lai wedi cau drwy fis Awst, felly toes dim i'w adrodd yn ôl.

18. MATERION BRYS DAN ADRAN 100B (4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Cynigodd Bob Barton ddiweddaru'r "Rheolau Sefydlog" ar gyfer y Cyngor. Penderfynodd yr Aelodau dderbyn cynnig y Cyng. Barton.

B. Adroddodd y Cynghorydd Ken Tams fod problemau tamprwydd yn un o dai Maes Derwen sydd yn eiddo i Gyngor Sir Ddinbych. Cytunodd y Cyng. Lyn Evans i gysylltu â Huw Williams, y Cynghorydd Sir i chwilio am ateb i'r broblem.

19. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Dydd Llun 1 Hydref 2018 yn yr Ystafell Bwyllgor, Neuadd y Pentref, Llanbedr Dyffryn Clwyd am 7.30 y.h.